**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P N Bentu | A Davis | J A Hale |
| M Jones | W G Lewis | P N May |
| J D McGettrick | B J Rowlands | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

## 1 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Wendy Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

## 4 Beth yw Swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd? (Er gwybodaeth)

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad "Er Gwybodaeth" i roi cyd-destun i Swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

## 5 Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd 2021-2022.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol 2021-2022 i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod rhwng 20 Mai 2021 a 23 Mai 2022. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Penderfynwyd** anfon yr adroddiad ymlaen i'r cyngor er gwybodaeth**.**

## 6 Adolygiad o Raglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad er mwyn adolygu Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

Amlinellodd Raglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022 a oedd wedi'i hamlinellu yn Atodiad A, ynghyd â manylion Digwyddiad y Farchnadle, a amlinellwyd yn Atodiad B.

Roedd sylwadau gan y Pwyllgor yn gefnogol yn bennaf, ac er bod y rhaglen yn un brysur iawn, cydnabuwyd bod angen darparu hyfforddiant cyn gynted ag y caiff Cynghorwyr eu hethol.

Roedd sylwadau cadarnhaol yn canolbwyntio’n bennaf ar Ddigwyddiad y Farchnadle, yr ystyriwyd ei fod yn llwyddiant ysgubol, gyda nifer yn awgrymu y dylid ymestyn amser y digwyddiad hwn neu drefnu sesiwn arall. Mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddi, roedd hi'n dda bod cyflwyniadau wedi'u dosbarthu’n dilyn y sesiynau er mwyn i Gynghorwyr gyfeirio yn ôl atynt a darparwyd o leiaf 2 sesiwn ar ddiwrnodau/amserau gwahanol.

Roedd sylwadau negyddol yn cynnwys y ffaith bod rhai o'r sesiynau'n rhy hir, dylai'r sesiynau fod yn 60-90 munud o hyd ar y mwyaf. Darparwyd y rhan fwyaf o sesiynau trwy PowerPoint, gan nad oedd llawer o opsiynau eraill. Byddai sesiynau mwy rhyngweithiol yn fwy diddorol. Roedd rhai o'r sesiynau'n rhy gymhleth, heb ddigon o'r elfennau sylfaenol yn cael eu darparu. Yn aml roedd sleidiau'n cael eu darllen yn uchel gan swyddogion fel eu bod yn rhannu gwybodaeth yn hytrach nag yn hyfforddi.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cais am sesiwn loywi ar y protocol Cynllunio rhag Argyfyngau o ran rôl Cynghorwyr mewn argyfwng. Byddai gwybodaeth ymarferol ar gyfer aelodau newydd wedi bod yn ddefnyddiol e.e. mynd i gyfarfodydd am y tro cyntaf, y broses o fynd drwy agenda, sut i bleidleisio, system y cabinet, sut i reoli gwaith achos. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd arbenigwyr pwnc yn hyfforddwyr.

Roedd y Pwyllgor wedi siomi nad oedd yr holl Gynghorwyr yn bresennol ar gyfer yr hyfforddiant a ddarparwyd, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bellach yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Grŵp i sicrhau eu bod yn monitro presenoldeb Cynghorwyr mewn hyfforddiant. Byddai adroddiad pellach gyda rhagor o fanylion yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â Chynghorwyr i gadarnhau a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynd i sesiwn hyfforddiant sylfaenol ar Bwyllgorau y gellid ei ddarparu ar sail sesiynau grŵp neu rai 1 i 1. Byddai Digwyddiadau Marchnadle amgen hefyd yn cael eu hystyried, megis sesiynau adrannol neu dîm.

**Penderfynwyd** defnyddio'r sylwadau uchod er mwyn llunio'r Rhaglen Sefydlu nesaf ar gyfer 2027.

**7 Cynllun Gwaith 2022-2023. (Llafar)**

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio eitemau i'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2022-2023:

Awgrymwyd yr eitemau canlynol:

- Hyfforddiant i Gynghorwyr (y tu hwnt i sefydlu);
- Ailedrych ar y Rhaglen Sefydlu - presenoldeb/gwersi a ddysgwyd;
- Cyfarfodydd Aml-leoliad;
- Arolwg Amserau Cyfarfodydd - byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl Gynghorwyr ym mis Ionawr 2023;

**Penderfynwyd** cynnwys yr eitemau canlynol yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023:

- Hyfforddiant i Gynghorwyr (y tu hwnt i sefydlu);
- Ailedrych ar y Rhaglen Sefydlu - presenoldeb/gwersi a ddysgwyd;
- Cyfarfodydd Aml-leoliad;
- Arolwg Amserau Cyfarfodydd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.49 pm

**Cadeirydd**